CYLCHGRAWN UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

# Yr Athro

RHIFYN ARBENNIG

# CYNHADLEDD 2025

## GWESTY'R HOLIDAY INN, CAERDYDD



Dychwelodd Cynhadledd UCAC i'r brifddinas eleni, gan fwynhau cyfleusterau'r Holiday Inn yn Stryd y Castell. Braf oedd cael y cyfle i gwrdd â hen ffrindiau, croesawu cynadleddwyr newydd ac urddo swyddogion am y flwyddyn academaidd nesaf. Roedd digon o gyfle hefyd i drafod cynigion am y prif faterion sy'n berthnasol i addysg yn 2025 – rhai materion sydd wedi bod yn destun trafodaeth ers blynyddoedd a materion eraill sy'n codi eu pennau am y tro cyntaf eleni. Yn ogystal â thrafod cynigion, roedd amser hefyd i wrando ar siaradwyr a chawsom dair sesiwn ddiddorol, adeiladol a defnyddiol. Yn ogystal â'r cyfarfodydd ffurfiol, braf oedd cael rhannu profiadau a syniadau mewn awyrgylch anffurfiol.

2 Cynigion y Gynhadledd
3 Urddo Swyddogion
8 Siaradwyr y Gynhadledd

# CYNIGION Y GYNHADLEDD

## CYNNIG | DERBYN | GWRTHOD | GWELLA | PLEIDLEISIO

Eleni, roedd **21 cynnig** yn Llawlyfr y cynadleddwyr a chafwyd un cynnig brys a gyflwynwyd fore Sadwrn. Er mwyn gweld y cynigion a'r penderfyniadau dilynwch y ddolen ganlynol;

## Dyma rai o'r materion a drafodwyd:

- ### Arholiadau TGAU/TAAU newydd

Cafwyd trafodaethau ynghylch cynnwys yr arholiadau newydd, y sesiynau hyfforddi ar eu cyfer a'r angen am sicrwydd o gael adnoddau Cymraeg ar yr un adeg ag adnoddau Saesneg eu cyfrwng.

- ### Cyllid

Mae diffyg cyllid yn her gynyddol ledled Cymru. Mae codiadau cyflog nad ydynt yn cael eu hariannu'n ganolog gan y Llywodraeth yn peri gofid, yn ogystal â'r oedi cyn dod o hyd i le i ddisgyblion ADY mewn unedau arbennig. O safbwynt staffio mewn ysgolion, mae'n bryder bod rhai ysgolion yn diswyddo aelodau o staff oherwydd gormodedd ar y naill law, ond ar y llaw arall yn recriwtio unigolion i gwblhau cwrs ôl-radd i hyfforddi i fod yn athro wrth wetihio'n llawn amser mewn ysgol.

- ### Ymddygiad

Neges gyson athrawon ym mhob cwr o Gymru yw fod ymddygiad ac agwedd disgyblion a rhieni yn gwaethygu a bod sefyllfaoedd heriol iawn yn codi mewn ysgolion. Oherwydd sefyllfaoedd argyfyngus sydd wedi codi mewn ysgolion, mae hi'n arferiad bellach i gynnal ymarferion clo. Bu ymddygiad disgyblion, ymddygiad rhieni a protocolau ymarferion clo yn bynciau trafod yn y Gynhadledd.

- ### ADY

A yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y ddarpariaeth orau? Ydy cyd-gysylltwyr ADY (CADY) yn cael eu trin yn deg?

- ### Yr Wyddor

Faint ohonoch sy'n gwybod yr wyddor Gymraeg?Cyn i chi fod yn or-hyderus, daeth hi'n amlwg wrth drafod un o gynigion y Gynhadledd mai prin yw'r bobl yng Nghymru sy'n gyfarwydd â'r wyddor Gymraeg, gan ddefnyddio enwau'r llythrennau yn hytrach na'r seiniau ffonetig.

**Am wybod mwy – dilynwch y ddolen......** PENDERFYNIADAU'R GYNHADLEDD

# URDDO SWYDDOGION

## LLYWYDD - SARA EDWARDS



Yn ei haraith agoriadol, mynegodd Sara cymaint o fraint iddi hi oedd bod yn Is-Lywydd UCAC. Diolchodd i Ceri, y Llywydd presennol am ei waith, gan nodi y byddai ganddi esgidiau mawr i'w llenwi. Wrth feddwl am gychwyn yn ei rôl fel Llywydd, roedd hi hefyd yn ymwybodol y byddai'n cael cefnogaeth Rhun Llwyd, a fyddai'n cychwyn ar ei rôl fel Is-lywydd.

Yn ystod cyfnod ei his-lywyddiaeth, bu Sara'n myfyrio ar y camau oedd wedi ei harwain at fod yn Llywydd UCAC. Olrheiniai'r cyfan i'w gwreiddiau Pwylaidd. Kasperek oedd ei henw morwynol a daeth ei thaid (Grandad), Pawel, i Gymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd, fel aelod o Fyddin Gwrthsafiad Gwlad Pwyl (Polish Resistance Army). Ymsefydlodd mewn gwersyll Pwylaidd ym Miwmares, cyn ymgartrefu ym Mangor gyda nain Sara (Grandma). Dan amgylchiadau eraill, cred Sara y byddai ei nain wedi bod yn athrawes Saesneg anhygoel. Roedd ei phen bob amser mewn llyfr.Sylwodd Grandma fod deunydd athrawes yn Sara hefyd, gan ddweud wrthi y byddai hi'n athrawes ryw ddydd, ond ymateb y Sara ifanc oedd mynnu mai mewn banc y byddai hi'n gweithio.  Eto i gyd, roedd arwyddion pendant fod diddordeb a doniau gan Sara i fod yn athrawes, a hithau'n blentyn yn eistedd y tu ôl i ddesg hen ffasiwn ac yn athrawes ar ei chwiorydd, gan ddarllen stori a marcio'u gwaith.

Drwy gydol ei chyfnod yn yr ysgol ac wrth fynd i'r Brifysgol, doedd bod yn athrawes ddim yn agos at ei meddwl nes i ffrind ysgol roi caniad iddi dros wyliau Pasg ei blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Aberystwyth.  "Sara, dwi'n mynd i wlad Pwyl dros yr Haf gyda APAS, yr Anglo Polish Academic Services, i ddysgu Saesneg i blant uwchradd yn Kalisz, ti ffansi dod gan bod chdi'n Kasperek." Mewn dim roedd hi ar y bws i Wlad Pwyl. Doedd ganddi ddim profiad o ddysgu, ond gan ei bod i'n hastudio Geneteg cafodd y cyfrifoldeb o ddysgu Saesneg trwy Wyddoniaeth i'r disgyblion bob bore am dair wythnos. O ganlyniad i'r profiad hwnnw, daeth hi i ystyried o ddifrif dilyn gyrfa fel athrawes.

Cam pwysig arall ar y daith i fod yn Llywydd UCAC oedd y cyfle i astudio'r Gyfraith fel pwnc Lefel A yn Ysgol David Hughes. Bu'n ystyried gyrfa yn y Gyfraith am ryw ychydig ond nid oedd yn gallu gweld ei hun yn medru cynrychioli 'Jack the Rippers' y byd 'ma felly dilynodd drywydd gwyddonol. Eto i gyd, roedd yr elfennau tegwch a chyfiawnder yn dal yn bwysig iddi ac yn gafael ynddi a chafodd brofiad o frwydro dros degwch a chyfiawnder mewn ffordd real iawn wrth iddi hi a'i gŵr Aled fynd i'r afael ag un o gwmnïau yswiriant mwyaf America am y ffordd yr oeddent wedi esgeuluso aelod o'r teulu.   Ymateb pawb i'w hymgais oedd nodi na fyddai gobaith ganddynt yn erbyn cwmni mor fawr, ond ennill fu eu hanes a sicrhau gofal i frawd Aled. Brwydrodd Sara hefyd dros ofal meddygol aelod arall o'r teulu, gan fynd ag achos i'r Ombwdsmon ac ennill.

Wrth edrych yn ôl, mae'n gweld amrywiol ddigwyddiadau yn ei bywyd, fel darnau bach o jig-so sydd wedi dod at ei gilydd ac a wnaeth ei llywio i fod yn gynrychiolydd UCAC, i fod yn angerddol am hawliau addysgwyr Cymru ac i ddod yn Llywydd UCAC am y flwyddyn academaidd 2025-2026. Gorffennodd Sara ei haraith drwy ddiolch i'r aelodau am ymddiried ynddi a chan nodi y bydd, yn ystod blwyddyn ei llywyddiaeth, yn ymladd dros yr hyn sy'n deg i bob aelod o UCAC a sicrhau dyfodol cadarn i addysgwyr Cymru.

# IS - LYWYDD UCAC 2025-2026

Un o orchwylion cyntaf Sara Edwards wedi iddi gael ei hurddo'n Llywydd am y flwyddyn academaidd 2025-2026, oedd urddo Is-Lywydd am yr un cyfnod. Yn ystod 2025-2026 Is-lywydd UCAC fydd Rhun Llwyd



Mae Rhun yn byw gyda'i bartner, Bethan, ar fferm yn Nhalog, Sir Gâr, yn magu moch ac yn cynhyrchu salami. Wedi gweithio yn y diwydiant electroneg yng Nghaerdydd am chwe blynedd, penderfynodd Rhun newid gyrfa i fod yn athro. Yn 2004, cafodd ei swydd gyntaf fel Athro Newydd Gymhwyso yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin lle bu'n dysgu Dylunio a Thechnoleg, cyn symud lawr i Abertawe.
Bu'n byw a dysgu yn y ddinas am bymtheng mlynedd yn sefydlu cyrsiau TGAU a Safon Uwch Electroneg poblogaidd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe ac Ysgol Gyfun Gŵyr. Bu hefyd yn bennaeth y gyfadran Dechnoleg am gyfnod yn Ysgol Bryn Tawe cyn symud yn ôl i'r gorllewin gwyllt. Ers 2020 mae e'n athro DT yn ei hen ysgol (Ysgol Dyffryn Teifi) ond sydd ar gampws newydd ac o dan enw newydd, sef Ysgol Bro Teifi.

## GADEWCH I NI DDOD I ADNABOD RHUN YN WELL....

**Enw**: Rhun Llwyd
**Ysgol**: Ysgol Bro Teifi, Llandysul
**Pynciau rydych yn eu dysgu neu gyfrifoldebau o fewn yr ysgol:** Cyrsiau TGAU a Safon Uwch DT. Cwrs BTEC Peirianneg hefyd.
**Hoff ddiddordebau:** Paragleidio.
**Hoff le yng Nghymru a pham:** Anodd dweud. Mae cymaint o lefydd hyfryd yn y wlad yma ac mae eu gweld a'u gwylio o'r awyr yn wefreiddiol.
**Byw neu farw, â phwy yr hoffech chi gyfarfod i gael sgwrs dros bryd bwyd:** Taid Caernarfon. Byddai'n neis rhoi llais i'r lluniau.
**Y perfformiad gorau i chi ei weld erioed, neu'r llyfr gorau i chi ei ddarllen:** O'n i arfer bod mewn band roc yn yr ysgol. Roedd ein cerddoriaeth yn ofnadwy ond roedd y profiadau o berfformio mewn gigs yn anhygoel.
**Os oes un peth yr hoffech chi ei newid am y system addysg yng Nghymru, beth fyddai hwnnw?** Gwneud y proffesiwn yn un sydd yn ddeniadol/atyniadol eto i athrawon newydd. Dw i'n rhagweld newidiadau mawr ym myd addysg yn ystod y degawdau nesaf gyda'r system draddodiadol yn newid i gydymffurfio gyda gofynion newydd cymdeithas a diwydiant. Bydd angen sicrhau hawliau, amodau a thâl teg i athrawon ar bob adeg.
**Pam ydych chi'n hapus i fod yn is-lywydd UCAC?** Braint fawr ydy medru cyfrannu ymhellach i'r Undeb dw i wedi bod yn aelod ohono ers y dechrau. Mae UCAC wedi bod yn gefn i mi a gweddill fy nheulu sydd wedi bod yn y proffesiwn dros y cenedlaethau.

# ARAITH YR YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL

**Isod ceir rhan o anerchiad Ioan Rhys Jones. Er mwyn darllen yr anerchiad yn llawn ewch i (DOLEN)**

Ar ôl croesawu pawb i'r Gynhadledd yn y brifddinas a diolch i'r cynadleddwyr am eu presenoldeb, talodd Ioan deyrnged i un o gewri UCAC a fu farw ddechrau mis Mawrth.

'Roedd John Emrys yn o gewri UCAC. Daeth yn aelod o UCAC ar Ionawr 1, 1960 . Bu'n weithgar iawn yn yr Undeb, yn Drysorydd Cenedlaethol am chwarter canrif tan 2013 ac yn aelod o'r Cyngor Cenedlaethol. Parhaodd i weithredu tan yn ddiweddar iawn fel ymddiredolwr i'r Undeb. Bydd nifer ohonoch chi yn ei gofio mewn cynhadledd neu yng nghyfarfodydd y Cyngor yng Ngwesty Plas Antaron, fel ag yr oedd.

Fel mae'n digwydd, roedd John Emrys yn rhan o'r trafodaethau i symud Prif Swyddfa UCAC o Gaerdydd i Aberystwyth yn ôl yr hyn rwyf yn ei ddeall. Roedd rhesymeg clir dros wneud bryd hynny o ran lle roedd trwch yr aelodaeth, wrth gwrs, ond tybed ai'r un fyddai'r penderfyniad erbyn heddiw?'

Yna, soniodd am y newidiadau a fu yng Nghaerdydd ers ymweliad diwethaf y Gynhadledd â'r brifddinas yn 2012, gan nodi'r pwyntiau cadarnhaol a'r heriau.

'Mae'n gwbl briodol ein bod yma yng Nghaerdydd heddiw, wrth gwrs, gan ein bod wedi gweld twf aruthrol addysg Gymraeg yn y de ddwyrain a bellach yma, naill ai ym Mharc Cathays neu yn y Bae yr ydym y trafodir cyflog, amodau gwaith a pholisiau addysgol.

Er gwaetha'r newidadau amlwg a fu, siom yw nodi diffygion y Llywodraeth eleni mewn sawl maes....

Er gwaethaf trafodaeth mewn sawl cyfarfod gyda'r Llywodraeth a'r awdurdodau, nid ydynt wir wedi mynd i'r afael â materion Llwyth Gwaith o ddifri. Digon teg fod grantiau ac adrodd ar lefel ysgol wedi derbyn sylw dros y ddwy flynedd ddiwethaf – ond fyddwn ni ddim yn gweld lleihad yn y llwyth marcio a pharatoi o ganlyniad i hynny.




Do, cafwyd adolygiad strategol o faterion yn ymwneud ag amodau gwaith athrawon gan CACAC rhyw ddwy flynedd yn ol. A byddai gweithredu'r argymhellion yn siŵr o wella amodau gwaith. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ddisgwyl am weithredu pellach gan yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Llywodraeth. Eu hymateb, fisoedd ar ôl derbyn yr adroddiad? Eu bod yn derbyn pob un o'r argymhellion, OND na fyddent yn gweithredu ar unrhyw argymhelliad, os nad yw'n gost niwtral. Maent wedi nodi ei bod yn amser symud ymlaen i drafod ymhellach, ond cawn weld pa mor hir y byddwn yn disgwyl i hynny ddigwydd....

Yn yr un modd maent wedi addo 'uwchgynhadledd' ar ymddygiad, ac mae'n ymddangos fod neuadd gynadledda mawr wedi ei archebu yng Nghasnewydd i'w chynnal – er nad ydym fel undebau wedi derbyn y manylion. * Mae perygl, wrth gwrs, mai trafod gwag fydd yn digwydd yn hytrach na gweithredu nerthol o'r canol, ond fe fydd llais aelodau UCAC yn cael ei glywed yn glir yn mynnu fod y Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r heriau.

Efallai yn wir mai dyma'r 12 mis mwyaf siomedig o ran perfformiad adran addysg y Llywodraeth ers peth amser. Coron y cwbl, wrth gwrs, oedd iddynt ddi-ystyru'n llwyr y prosesau datganoleledig cytunedig wrth oedi ac oedi cyn cyhoeddi y codiad cyflog i athrawon.

* Rydym wedi derbyn gwahoddiad bellach i'r Deml Heddwch yng Nghaerdydd ar Fai'r 22ain, 2025.

Roedd y dewis i wneud hynny'n sarhau'r rhanddeiliaid, ac yn wir, CACAC ei hun. Pam na fu i'r Ysgrifennydd Cabinet gyhoeddi'r setliad tan fis Tachwedd, er ei bod wedi derbyn adroddiad CACAC ers mis Gorffennaf ? Er mwyn cydweithio gyda Lloegr? Pam felly oedi'r ymgynghoriad am wythnosau wedi i Loegr ymgynghori? Yn wir, pam disgwyl arweiniad Lloegr o gwbl? Roedd yr holl broses yn codi cwestiynau mawr o allu'r Ysgrifennydd Cabinet a'r Llywodraeth i weithredu yn effeithiol.

Yn bwysicach, roedd yn tanseilio datganoli a'r Senedd ei hun. Wedi blynyddoedd o frwydro i sicrhau cyfundrefn addysg annibynnol i Gymru, roedd yn ergyd mawr i ni fel undeb, wrth gwrs, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r Cyngor am eu harweiniad doeth ar y mater.

Mae cylch CACAC wedi cychwyn, o'r diwedd, ar gyfer 2025-26 – ond mae ffaeleddau'r system yn glir unwaith yn rhagor – yr Ysgrifennydd Cabinet yn peidio gyrru'r llythyr at CACAC tan ymhell i'r flwyddyn Newydd (6 mis yn hwyr i bob pwrpas), yna amserlen tynn iawn i randdeiliaid ymateb ddwywaith i ystyried cyflog yn unig a hynny o fewn cyfundrefn na ellid dweud fod CACAC yn annibynnol mewn unrhyw fodd, a'u penderfyniadau wedi eu rhwymo gan ofynion gwleidyddol iawn. Unwaith eto rwyf yn ddiolchgar iawn am gytundeb y Cyngor, mai ymateb cryno gan UCAC fyddai'r ffordd ymlaen. Cawn weld beth fydd ymateb yr YC, neu cawn weld beth fydd cyhoeddiad Llywodraeth Lloegr beth bynnag.'


Diolchwyd i staff UCAC a'r Llywydd presennol am eu cefnogaeth a'u gwaith ar hyd y flwyddyn ac am drefnu'r Gynhadledd.

Wrth edrych i'r dyfodol, atgoffodd yr aelodau fod UCAC'ar flaen y gad ar sawl agwedd' a nodwyd y bydd yr Undeb 'yn parhau i sicrhau llais yr aelodau a bod yn gefn iddynt dros y flwyddyn nesaf'. Fe'n hatgoffwyd mai 'UCAC yw'r undeb llafur athrawon rhataf i fod yn aelod ohono, ond yn bwysicach na hynny, wrth gwrs, yw'r ffaith fod UCAC yn parhau i gynnig y gwasanaeth gorau posibl i aelodau – yn y gweitho tawel personol, yn y cyd-weithio parchus ar bob lefel ac yn yr ymateb Cenedlaethol cadarn.'

Daethpwyd â'r araith i ben drwy ddiolch i'r holl aelodau am eu gwaith a thrwy atgoffa pawb mai 'mewn undeb mae nerth'!












# AELOD NEWYDD O STAFF- WYNEB CYFARWYDD

Un o'r Cynadleddwyr brwd yn yr Holiday Inn yng Nghaerdydd oedd wyneb cyfarwydd iawn i'r mwyafrif o aelodau UCAC sef Dilwyn Ellis Roberts.Bu Dilwyn yn Swyddog Maes, yn Is-Ysgrifennydd Cyffredinol ac yn Ysgrifennydd Cyffredinol yr undeb ar wahanol adegau rhwng 2004 a 2022.

Ar ôl cyfnod yn gweithio mewn maes cwbl wahanol, mae bellach wedi dychwelyd i weithio i UCAC. Yng Nghaerdydd, roedd yn gynadleddwr, yn cynrychioli Cymdeithas Sir Merthyr ond bellach mae Dilwyn yn un o Swyddogion Maes yr Undeb.

## A DYMA DILWYN YN EI GYFLWYNO EI HUN.....



Cefais fy ngeni yn Y Fawnog, Garndolbenmaen a fy magu ym Mhemprys, Pentreuchaf ger Pwllheli.

Wedi blynyddoedd o fyw yn Aberystwyth a'r cyffiniau dw i bellach yn byw rhyw ychydig filltiroedd o Aberaeron ym Mhennant, Dyffryn Arth.

Ymysg fy niddordebau mae chwarae organ geg mewn amryw o fandiau ac mae gen i docyn tymor gyda chlybiau pêl-droed Tref Aberystwyth a Stoke City.

Dwi'n dad i dri o feibion a hefyd yn daid – mae fy mhartner Jade yn athrawes mewn ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf.

Dw i wedi treulio fy oes ym myd addysg fel athro cynradd, darlithydd a swyddog undeb ac yn ddiweddar fel swyddog treftadaeth yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful.

Bu i mi ymaelodi ag UCAC ar Fedi'r cyntaf, 1982 pan oeddwn yn fyfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Roedd amcanion UCAC yn rhai oedd yn fy ysbrydoli. Yn eu mysg, roedd:

- diogelu a gwella amodau gwaith aelodau;
- sicrhau cyfundrefn addysg annibynnol i Gymru;
- hyrwyddo iaith a diwylliant Cymraeg.

Gydag addewid o ddarparu cymorth cyfreithiol a phroffesiynol o'r radd flaenaf UCAC oedd yr unig undeb y galwn fod wedi hyd yn oed ystyried ymuno ag ef ar ddechrau fy ngyrfa. Mae wedi bod yn fraint cael bod yn aelod o'r unig undeb llafur i gael ei sefydlu yng Nghymru a chael cynrychioli UCAC fel aelod lleyg a chyflogedig a dros y blynyddoedd.


Mae'n fraint pellach cael bod yn ôl yn gweithio i UCAC wedi fy nghyfnod ym Merthyr a dw i'n edrych ymlaen at gydweithio gyda thîm cwbl ysbrydoledig yr Undeb i gefnogi a chynrychioli ein haelodau ar draws y De.

# SIARADWYR Y GYNHADLED

## CYNHADLEDD FLYNYDDOL UCAC 28 A 29 MAWRTH 2025

ADNODD – EMYR GEORGE



Siaradwr cyntaf y Gynhadledd oedd Emyr George o Adnodd.  Esboniodd beth oedd diben y corff newydd hwn a rhoddodd amlinelliad o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yma a beth yw'r dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Corff hyd braich Llywodraeth Cymru i oruchwylio a darparu adnoddau i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru yw Adnodd.  Y nod yw sicrhau fod gan athrawon a phobl ifanc fynediad at yr adnoddau hynny sydd eu hangen i hwyluso dysgu, gan gau'r bwlch rhwng yr arlwy Saesneg a'r arlwy Cymraeg.

Pedwar gair allweddol wrth ystyried swyddogaeth Adnodd yw Archwilio, Cydlynu, Comisiynu ac Adolygu.

**ARCHWILIO**

Y cam cyntaf oedd edrych ar yr adnoddau sydd eisoes yn bodoli ac ystyried anghenion y dyfodol yng ngoleuni'r Cwricwlwm i Gymru newydd a chymwysterau diwygiedig. Mae modd gweld yr adroddiad isod:

**CYDLYNU**

Mae cydweithio a chydlynu yn bwysig iawn a hefyd yn her. Eisoes gwelwyd Adnodd yn cydweithio gyda chwmnïau a sefydliadau amrywiol ac mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd o feithrin perthnasau gyda mwy o sefydliadau.




**COMISIYNU**

Pan fydd cyfle, bydd Adnodd yn mynd ati i gomisiynu, gan roi pwyslais ar ansawdd yr adnoddau, yn hytrach na faint o adnoddau fydd yn cael eu cynhyrchu.  Y nod fydd llenwi bwlch yn y ddarpariaeth.

**ADOLYGU**

Mae yna gymhelliant i ymarferwyr gynnig adborth am yr hyn sydd wedi ei gomisiynu.

Mae'r pwyslais hyd yma wedi bod ar lythrennedd a rhifedd, ADY, Hanes Cymru, Iechyd a Lles, gwrth-hiliaeth.

**Y CAMAU NESAF**

- Lawnsio strategaeth yn Eisteddfod yr Urdd
- Cryfhau capasiti
- Creu partneriaethau pellach

·Ymchwilio ac ymgysylltu pellach, gan ddod o hyd i bethau sy'n gweithio'n barod

Yn dilyn cyflwyniad Emyr George, cafwyd cyfle i holi cwestiynau a chafwyd trafodaeth. Ymhlith y pwyntiau a godwyd oedd y problemau sydd ynghlwm wrth Hwb a'r angen i roi adnoddau ar lwyfan effeithiol. Mae'n bwysig gallu dod o hyd i ddeunyddiau mewn un lle a dod o hyd iddynt yn hawdd.

Pwysleisiwyd hefyd pa mor bwysig yw hi i aelodau UCAC fod yn rhan o'r bartneriaeth gydag Adnodd. Dilynwch y ddolen isod i ymuno â chymuned Adnodd ac i dderbyn y cylchlythyron.

https://adnodd.llyw.cymru/ymunwch-ar-gymuned/



## FAYE MCGUINESS EDUCATION SUPPORT

Cafwyd cyflwyniad difyr, diddorol a defnyddiol gan Faye McGuiness o Education Support – elusen sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles athrawon a staff addysgol mewn sefydliadau addysg.

Pwysleisiodd Faye pa mor bwysig yw lles, gan nodi fod gwella lles yn arwain at wella addysg. Nododd Faye fod Education Support yn ystyried lles yn nhermau'r unigolyn, y gweithle a'r system addysg.

Rhoddwyd ystyriaeth i beth yw lles a beth yw straen a rhannwyd rhai ffeithiau diddorol:

- Mae'r sawl sy'n gweithio dros 55 awr yr wythnos mewn mwy o berygl o gael stroc neu broblemau calon.
- Yn ôl y gwyddonwyr, dylem fod yn gorffwys 42% o'r diwrnod h.y. wyth awr o gwsg a dwy awr o weithgareddau ymlaciol. Mae angen i'r ymennydd gael gorffwys, fel y mae angen gorffwys ar bob cyhyr arall.

Nid yn unig rhannwyd gwybodaeth am les a straen, ond nodwyd rhai strategaethau effeithiol i fynd i'r afael â straen.

**GWASANAETH EDUCATION SUPPORT**

*Llinell gymorth 24 awr 08000 562 561

*Adnoddau ar-lein (gan gynnwys rhai adnoddau Cymraeg) – gweler er enghraifft y pecyn deunyddiau dwyieithog isod: Dolen

# RHIANNON PARRY – ER DY LES DI

Dechreuodd Rhiannon ei chyflwyniad drwy nodi ambell i ffaith sy'n pwysleisio cymaint o broblem yw iechyd meddwl yn ein cymdeithas ac ymhlith ein pobl ifanc.
Mae Rhiannon yn athrawes gynradd yn Ysgol Gynradd Llangwyryfon yng Ngheredigion a hefyd wedi sefydlu busnes 'Er Dy Les Di', sef busnes sy'n creu adnoddau lles ar gyfer ysgolion cynradd yn bennaf. Sefydlwyd y busnes yn 2021 yn sgil ei phrofiadau yn ystod y clo ac wrth iddi ddod yn fwyfwy ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles.Mae wedi creu banc o wersi parod ar gyfer y cwricwlwm newydd a llu o adnoddau eraill, megis llyfrynnau, cardiau ayb.




Cawsom gyflwyniad i'r cyfoeth o adnoddau y mae wedi eu paratoi a chipolwg o'r gwaith y mae hi'n ei wneud gyda'i dysgwyr yn Llangwyryfon, gwaith a sbardunodd sefydlu'r busnes a gwaith sydd wedi ennyn canmoliaeth a chydnabyddiaeth.
Os am fwy o wybodaeth am adnoddau Er Dy Les Di, mae modd eu prynu ar Facebook ac Etsy.

# AC YMATEB Y CYNADLEDDWYR....

"LLEOLIAD ARBENNIG"

"Cyfle i drafod gydag eraill"

"TREFNIADAU DA IAWN"

Trafodaethau da iawn.

"WEDI MWYNHAU Y DDAU DDIWRNOD"

" Digon o amrwyiaeth. Popeth yn wych – y trafod, pecyn y gynhadledd, y lleoliad, y cyflwyniadau, y lluniaeth a'r cymdeithasu."

"Pwyntiau diddorol yn cael eu codi"

BWYD BLASUS, SIARADWYR GWADD DIDDOROL DROS BEN

"Cyfle i sgwrsio gyda hen ffrindiau a braf hefyd gweld rhai wynebau newydd"

## FELLY, BETH AM DDOD I GYNHADLEDD 2026?

## BWRDD GOLYGYDDOL

**Llywydd Cenedlaethol:** Ceri Evans
**Is-Lywydd:** Sara Edwards
**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Ioan Rhys Jones
**Is-ysgrifennydd Cyffredinol:** Mererid Lewis Davies
**Cydlynydd Yr Athro:** Iona Davies
**Dylunydd:** Nia Evans

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.
Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at:
Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU
Ffôn: 01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru
Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

## GALW AM YMDDIRIEDOLWYR

Mae UCAC yn cynrychioli athrawon, darlithwyr ac arweinwyr addysg ym mhob cwr o Gymru.

Rydym yn awyddus i benodi ymddiriedolwyr newydd i gyfrannu at lywodraethiant yr Undeb.

Mae croeso i unrhyw aelod neu gyn-aelod fynegi diddordeb, a'r Cyngor Cenedlaethol fydd yn penodi'n derfynol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i (DOLEN)